Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mesur Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru)

Cyflwyniad

1.Cyhoeddwyd y Mesur drafft ym mis Mawrth 2005 â chyfnod o ymgynghori cyhoeddus tan 14 Mehefin, ond ar 25 Mai, y diwrnod y trafododd y Pwyllgor y drafft, cafodd ei ddarlleniad cyntaf n Nhŷ'r Arglwyddi.

2. Atodir i'r adroddiad hwn bapur a gyflwynwyd gan Gynghrair Henoed Cymru (http://www.cymru.gov.uk/servlet/HealthAndSocialServicesCommittee?area_code=37DE8D3A0007063C0000089600000000&document_code=N0000000000000000000000031451&p_arch=post&module=dynamicpages&month_year=5|2005 , ynghyd â'r cofnod gair am air (http://www.cymru.gov.uk/keypubrecordproceedings/content/hss-050525.htm).

Tystiolaeth Lafar

3. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan:

Dr Malcolm Fisk	Cadair, Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hy^n yng Nghymru
Robert Taylor	Cadair, Cynghrair Henoed Cymru
Alun Davies	Cadair, Fforwm Pensiynwyr Cymru

4. Croesawodd y tri chorff hyn y cynigion i sefydlu swydd Comisiynydd Pobl Hŷn a'r cylch gwaith cyffredinol yn y Mesur. Roedd rhywfaint o bryder ynglŷn â'r manylion a rhestrir y prif bwyntiau isod.

5. Pryderai'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol am bwerau'r Comisiynydd o ran y bobl sy'n byw yng Nghymru ond sydd yn derbyn gwasanaethau yn Lloegr.

6. Dywedodd Robert Taylor fod rhai pobl yn teimlo y gallai rôl y Comisiynydd orgyffwrdd â rôl y Comisiwn dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cydnabyddai y byddai cylch gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn gyda phobl dros 60 oed, tra bod y Comisiwn dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn trafod materion cyflogaeth a hyfforddiant.

7. Barnai Cynghrair Henoed Cymru fod bylchau o bosibl yn rhestr y cyrff a'r gwasanaethau a geir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Mesur a hoffent gael eglurhad ynghylch darpariaethau cymal 4 (2)(d) a chymal 7(2)(d). Yn eu barn nhw mae'r cymalau hyn yn cyfyngu'r meysydd darparu gwasanaeth a gâi'u hadolygu gan y Comisiynydd.

8. Mynnai Cynghrair Henoed Cymru gael gwybod hefyd beth fyddai rôl y Comisiynydd o ran y materion na chawsant eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.

9. Roedd Y Fforwm Pensiynwyr yn ystyried y dylai'r Comisiynydd, o dan rai amgylchiadau, edrych ar achosion pobl rhwng 50 a 60, ac nid yn unig ar achosion pobl dros 60 fel y nodir yn y Mesur. Dywedodd Alun Davies hefyd yr hoffent sicrhau bod cylch gwaith y Comisiynydd yn ei orfodi i ymgynghori'n rheolaidd â grwpiau pobl hŷn a'r cyrff hynny sydd yn gweithio gyda nhw neu drostynt.

10. Wrth ateb cwestiwn gan Aelod, roedd y tystion ill tri yn cytuno y dylai pobl hŷn fod â rhan yn y broses o benodi'r Comisiynydd.

Trafodaeth a Chasgliadau

11. Eglurodd Y Dirprwy Weinidog nifer o faterion a godwyd gan yr Aelodau a thrafododd y Pwyllgor y dystiolaeth lafar. (Gweler y cofnod gair am air a atodwyd.)

12. Hefyd, tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw'r Pwyllgor at ddarpariaethau a geirio'r Mesur parthed y gwasanaethau a ddarperir ar draws y ffin i'r bobl hynny sydd yn byw yng Nghymru fel arfer. Wrth ddrafftio'r Mesur y bwriad oedd y gallai'r Comisiynydd ymdrin â materion lle y byddai cyrff yng Nghymru'n comisiynu gwasanaethau o'r ochr arall i'r ffin ond nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu'n glir yn y geiriau. Gallai hyn fod yn destun gwelliant gan y Llywodraeth.

13. Nid yw Llywodraeth y DU yn gorfod ymateb i'r Comisiynydd os gwnaiff hwnnw sylwadau ar unrhyw faterion nad ydynt wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Teimlai'r rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor fod angen trafod y mater yma ymhellach, er bod cryn nifer yn derbyn gair Y Dirprwy Weinidog y byddai'r Cynulliad yn cyfleu'r sylwadau hynny i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU, drwy Swyddfa Cymru.

14. Ar wahân i'r uchod, roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y Mesur.

Argymhelliad

15. Dylid trafod ymhellach sut y byddai sylwadau'r Comisiynydd ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli i'r Cynulliad yn cael eu trin.

David Melding
Cadair
Mehefin 2005